

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Llanrwst,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 14

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanrwst yn 24a Stryd Watling, Llanrwst, Conwy, LL26 0LS, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 14 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld mwy o fanylion ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gofal yn cael ei gyflwyno mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd y cyfarpar a'r ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Roedd gan staff fynediad da at hyfforddiant a chefnogaeth gan dîm ehangach y practis

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r wybodaeth am gwyno ar daflen y practis i gynnwys manylion cyswllt AGIC

- Ffurfioli'r trefniadau ar gyfer gwaredu meddyginiaeth
- Selio'r wyneb gweithio yn yr ystafell driniaeth
- Sicrhau bod paramedrau gweithredu'r awtoclaf yn cael eu gwirio ar bob cylchred gan ddefnyddio sribedi TST¹ a chynnal cofnod o'r canlyniadau
- Disodli pecynnau gollyngiadau mercwri a chymorth cyntaf a monitro dyddiadau dod i ben yn rheolaidd
- Prynu bag Ambu pediatrig, mwgwd ocsigen, a mygydau wyneb maint 0, 1, 2, 3 a 4 ar gyfer y pecyn dadebru
- Adolygu'r polisi rheoli heintiau a chynnal archwiliad rheoli heintiau
- Storio meddyginiaeth a ddefnyddir ar gyfer llonyddiad mewn cwpwrdd â chlo dros nos
- Diweddarau siartiau deintyddol pob ymweliad
- Rhoi proses ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid

¹ Mae'r term TST yn dalfyriad o'r Saesneg am 'amser, ager, tymheredd', sef y paramedrau hanfodol ar gyfer cylchred sterileiddio.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Llanrwst yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Conwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff, sy'n cynnwys rheolwr y practis/derbynnydd, un deintydd, a dwy nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch ac â chwarteisi gan dîm y practis. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 18 o holiaduron wedi'u cwblhau; cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion tymor hir yn y practis (a oedd wedi bod yn glaf gyda'r practis ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r holl staff yn hawdd mynd atynt ac mae trefnu apwyntiadau'n hawdd. Rydw i bob amser wedi cael fy annog i drafod opsiynau triniaeth. Mae'r triniaethau wedi bod yn foddhaol iawn bob tro.”

“Yn hapus iawn gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd. Mae'r deintydd yn sgwrsio gyda chi, yn gwneud i chi deimlo fel rhan o'r sgwrs. Mae'r nyrsys yn broffesiynol ac yn drwsiadus.”

“Yn gyfeillgar ac yn groesawgar iawn. Mae'r holl staff yn hynod hawdd mynd atynt ac yn barod i ateb cwestiynau. Yn tawelu'r meddwl yn dda iawn, yn gallu bod yn ddwyieithog, a dwi'n hoffi hynny.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd gwelliannau a argymhellwyd gan gleifion yn cynnwys gosod lifft, neu gymhorthyn tebyg, ac y dylai'r practis deintyddol gadw at ei bolisi o anfon nodiadau atgoffa ynghylch apwyntiadau

drwy negeseuon testun, oherwydd roedd rhai cleifion wedi dweud wrthym nad ydynt byth yn derbyn neges destun i'w hatgoffa o'u hapwyntiad.

Cadw'n iach

Gwelsom fod y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Eu diben oedd annog y cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' drwy gydol y practis, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â hwy am sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Roedd y staff yn dîm bach a chyfeillgar a gwelsom eu bod yn rhyngweithio â chleifion mewn modd cwrtais.

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Bob tro'n cael fy nhrin ag urddas a pharch. Bob tro'n derbyn gofal a thriniaeth wych.”

“Fel claf, rwyf bob tro'n cael fy mharchu o ran dewis, urddas a gofal. Y deintydd gorau erioed!”

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu darparu preifatrwydd i gleifion, petai ei eisiau arnynt, i drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol, o olwg cleifion eraill.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei ofal deintyddol, i'r graddau yr oedd yn dymuno, a dywedodd pob un ond un claf eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael. Er bod yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym fod cost unrhyw driniaeth yn glir iddynt

cyn derbyn unrhyw driniaeth, dywedodd bron chwarter o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Gwelwyd bod gwybodaeth am brisiau cyffredinol triniaeth ar gael yn yr ardal aros. Roedd y cleifion yn derbyn gwybodaeth glir am brisiau penodol ynghylch cynlluniau triniaeth unigol. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn gwybod pris eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob tro; roedd hyn yn wir am yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a phob un ond un claf Cymraeg, a ddywedodd nad oedd byth yn gallu siarad â'r staff yn ei iaith ddewisol.

Gwnaethom gadarnhau bod staff Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion am unrhyw oedi i'w hamserau apwyntiad a gwelsom bolisi'r practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Dywedodd oddeutu chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad i wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai problem ddeintyddol frys ganddynt. Fodd bynnag, roedd rhif ffôn y tu allan i oriau wedi'i arddangos ar ddrws y brif fynedfa, ac roedd yn y daflen gwybodaeth i gleifion ac ar y neges ar y peiriant ateb.

Lleisiwyd pryderon gan gleifion yn yr holiaduron ynghylch amserau aros a diffyg negeseuon atgoffa am apwyntiadau drwy negeseuon testun. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

"Mae'r gofal deintyddol yn iawn ond mae'r amser aros bob tro'n eithafol. Nid yw'r apwyntiadau erioed yn brydlon."

"Cyfnodau aros hir gydag apwyntiadau yn hwyr yn y prynhawn – llawer yn well yn y bore."

"Cysylltu â mi pan fo angen gwiriad arnaf. Mae ganddynt fy rhif ffôn symudol, ond dydyn nhw byth yn anfon neges – rhaid i mi fynd i mewn i drefnu apwyntiad."

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gweld eu bod wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a chafwyd caniatâd gan bob claf ynghylch triniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Canfuom fod mynediad i'r dderbynfa a'r ardal aros yn dda. Fodd bynnag, roedd yr ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf ac roedd angen dringo grisiau i'w chyrraedd. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad i'r ystafell driniaeth.

Roedd toiledau ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear â mynediad da i bobl ag anghenion symudedd.

Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd mwy na chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Fodd bynnag, gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig, a oedd ar gael i'r cleifion. Yn ogystal, cafodd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder neu gwyn ei harddangos yn y dderbynfa ac roedd wedi'i chynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion.

Cawsom wybod bod y practis yn derbyn ychydig iawn o gwynion ac yr ymdrinnir â hwy wrth eu gwraidd lle y bo'n briodol. Roedd cofnod o gwynion yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin yn y cwynion roeddent yn eu derbyn.

Gwelsom fod angen diweddarau'r wybodaeth am gwynion yn nhaflen y practis i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Diweddarau taflen y practis i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Parhau i archwilio opsiynau i leihau amserau aros.

Gwella'r defnydd o negeseuon testun er mwyn atgoffa cleifion am apwyntiadau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safle'r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau mewn perthynas â'r broses ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu dros y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Cynhaliwyd profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol yn ystod y 12 mis diwethaf yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.²

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn ardal amgaaedig wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr.

Gwelsom fod fersiwn hŷn o'r poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch yn cael ei harddangos. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, a gytunodd i brynu poster newydd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adolygu a diwygio'r polisi i adlewyrchu arweinydd presennol y polisi rheoli heintiau a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.³

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ddynodedig â digon o offer ac roedd hi'n bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell prynu brws dolen hir a chwyddhadur mwy â golau ar gyfer glanhau a gwirio offer deintyddol.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf⁴ a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn

² <http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm>

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁴ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau drwy'u trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, yn absenoldeb cofnodwr neu argraffydd data electronig, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i bamedrau gweithredu gael eu cofnodi, gan ddefnyddio sribedi TST, ar bob cylchred awtoclaf. Ymdrinnir â hyn hefyd dan ein proses gwella ar unwaith ac fe gyfeirir ato ymhellach yn Atodiad B.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu stori'n briodol i atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau y defnyddiwyd neu a ail-broseswyd offer (glanhau a sterileiddio) wedi'u cofnodi yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, canfuom fod angen ail-selio'r wyneb gweithio er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes-heintio.

Gwnaethom argymhell darparu biniau gwastraff clinigol y'u gweithredu â throed yn yr ystafell driniaeth ac yn yr ystafell ddadheintio.

Roedd y staff yn y practis yn cwblhau gwiriadau rheoli heintiau rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad rheoli heintiau ffurfiol wedi cael ei gwblhau i nodi meysydd ar gyfer gwella a datblygu fel rhan o'r gweithgarwch cyffredinol i fonitro sicrwydd ansawdd. Gwnaethom awgrymu cynnal archwiliadau o'r fath yn flynyddol gan ddefnyddio offeryn archwilio Deoniaeth Cymru ⁵ yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwmp). Fodd bynnag, gwelsom fod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf

⁵ Sefydliad yw Deoniaeth Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, gan ddarparu cyfleusterau addysgol ym maes meddygaeth a deintyddiaeth ac arwain ar ymchwil addysg.

a'r chwistrellau a'r nodwyddau yn y blwch dadebru y tu hwnt i'w dyddiadau defnyddio. Canfuom hefyd nad oedd bag hunan-chwyddo pediatrig (bag Ambu) ac nad oedd unrhyw fygydau wyneb meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 yn y pecyn dadebru. Aethpwyd i'r afael â hyn dan ein proses gwella ar unwaith. Roedd hyn yn golygu inni ysgrifennu at y practis ar unwaith ar ôl yr arolygiad yn gofyn am gamau gweithredu adferol brys. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Roedd gan yr holl staff dystysgrif hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd gyfredol ac roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn golygu eu bod ar gael petai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell storio'r cyffuriau hyn mewn cwpwrdd dan glo dros nos.

Cawsom wybod bod meddyginiaeth heb ei defnyddio'n cael ei dychwelyd i'r fferyllfa. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion yn cael eu cynnal o waredu meddyginiaeth. Gwnaethom argymhell y dylai'r trefniadau gael eu ffurfioli fel bod cadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, yn cael ei dderbyn pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu y gwaredir arni.

Yr hyn y mae angen ei wella Adolygu a diwygio'r polisi rheoli heintiau. Darparu brws dolen hir a chwyddhadur mwy â golau ar gyfer glanhau a gwirio offer deintyddol. Ailseio'r wyneb gweithio yn yr ystafell driniaeth er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes-heintio. Ffurfioli'r broses rheoli meddyginiaeth fel y derbynnir cadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu y gwaredir arni.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn nodi'n fanwl y camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, petai unrhyw bryderon diogelu gan y staff.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafell driniaeth) yn y practis a nodi eu bod yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw at safon uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen ail-selio'r wyneb gwaith yn yr ystafell driniaeth wrth yr ymylon er mwyn sicrhau glanhau effeithiol ac i leihau'r risg o groes-heintio.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio'r staff clinigol perthnasol yn gyfredol a'u bod yn bodloni canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr holl ddelweddau pelydr-X wedi cael eu hasesu a'u graddio er ansawdd.

Gwnaethom argymhell y dylid cael gwared ar yr hen beiriant pelydr-X yn yr ystafell ddadheintio.

Yr hyn y mae angen ei wella Asesu a graddio'r holl ddelweddau pelydr-X i sicrhau ansawdd. Gwaredu'r hen beiriant pelydr-X yn yr ystafell ddadheintio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal rhai archwiliadau mewnol i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperid i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cwblhau rhestr wirio rheoli heintiau, archwiliadau i'r ystafelloedd triniaeth a chael adborth gan gleifion i helpu i nodi meysydd i'w gwella, a gwiriadau ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i ddatblygu prosesau archwilio a llywodraethu ymhellach drwy drefniadau dwyochrog â phractis deintyddol arall.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Oherwydd mai un deintydd yn unig oedd yn gweithio yn y practis, nid oedd archwiliadau adolygiad gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Serch hynny, ac fel y nodwyd yn flaenorol, cawsom wybod bod trefniadau dwyochrog yn cael eu rhoi ar waith gyda deintydd o bractis arall ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cafodd cofnodion cleifion eu storio a'u cynnal yn electronig ac ar bapur. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth ar gyfrifiaduron.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda i sicrhau diogelwch a lles cleifion. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gweld bod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch hanes meddygol; trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision; a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd siartio deintyddol⁶ yn cael ei gwblhau ar gyfer cleifion ar bob ymweliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cwblhau siartio deintyddol ar bob ymweliad a chofnodi'r canlyniadau.

⁶ Proses yw siartio deintyddol lle mae eich gweithiwr gofal iechyd deintyddol yn rhestru ac yn disgrifio iechyd eich dannedd a'ch deintgig. Cwblheir y siartio fel arfer yn ystod gwiriadau deintyddol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr y practis gyda chymorth y prif ddeintydd. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o staff a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Llanrwst yn cael ei reoli gan reolwr y practis, gyda chefnogaeth y prif ddeintydd. Gwelsom fod y tîm yn drefnus ac yn rhagweithiol yn ei ymagwedd at reoli'r practis. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd tîm y practis barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm a digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion manwl yn cael eu llunio.

Gwelsom fod amrediad o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith ac yr ymgwymerir â gwiriadau cefndir cyn i weithwyr ddechrau yn eu swyddi.

Roedd cofnodion yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Roedd y cofnodion yn dangos bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u perfformiad, wedi'i gefnogi gan oruchwyliaeth a chyfarfodydd cefnogi bob chwarter.

Gwelsom fod y deintydd a'r staff nyrsio wedi'u cofrestru i weithio gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintydd sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat a gwelsom ei dystysgrif gofrestru AGIC wedi'i harddangos yn ôl gofynion rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwelsom hefyd wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol ar gyfer yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanrwst

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Canfuom nad oedd y practis yn cofnodi paramedrau gweithredu'r awtoclaf â llaw ar bob cylchred, gan ddefnyddio stribedi TST, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008	Mae paramedrau gweithredu'r awtoclaf yn cael eu gwirio ar bob cylchred gan ddefnyddio stribedi TST. Darparwyd sampl o stribedi TST.		
Rhaid i berchennog y practis sicrhau y caiff paramedrau gweithredu'r awtoclaf eu gwirio ar bob cylchred gan ddefnyddio stribedi TST a chofnodi'r canlyniadau.	Rheoliad 14 (4), (5) a (6) Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.4 Memorandwm			

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 4.16			
<p>Gwelsom fod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf a'r chwistrellau a'r nodwyddau yn y blwch dadebru y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio.</p> <p>Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf a'r blwch dadebru'n cael ei wirio'n rheolaidd a bod unrhyw eitemau sydd y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio yn cael eu disodli.</p> <p>Rhaid i berchennog y practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod y pecyn cymorth cyntaf a'r chwistrellau a'r nodwyddau yn y blwch dadebru wedi cael eu disodli.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliad 14 (1) (c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.9</p> <p>Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU</p>	<p>Archebwyd blwch cymorth cyntaf, chwistrellau a nodwyddau newydd ar 14 Tachwedd 2017 a chawsant eu derbyn ar 15 Tachwedd 2017.</p> <p>Dechreuwyd cofnodi profion misol mewn llyfr cofnodi.</p> <p>Darparwyd anfonebau wedi'u sganio.</p>	BJ	Ar unwaith
Gwelwyd nad oedd bag hunan-chwyddo pediatriig (bag Ambu) yn y pecyn dadebru.	Rheoliadau Deintyddiaeth	Archebwyd ar 14 Tachwedd 2017 a derbyniwyd ar 15 Tachwedd	KB	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i reolwr y practis brynu bag hunan-chwyddo pediatrig (bag Ambu) ar gyfer y pecyn dadebru.</p> <p>Rhaid i berchennog y practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod bag hunan-chwyddo pediatrig (bag Ambu) wedi cael ei brynu.</p>	<p>Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliad 14 (1) (c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.9</p> <p>Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU</p>	<p>2017.</p> <p>Darparwyd anfonebau wedi'u sganio.</p>		
<p>Canfuwyd gennym nad oedd mygydau wyneb meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 yn y pecyn dadebru.</p> <p>Rhaid i reolwr y practis brynu mygydau wyneb meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 ar gyfer y pecyn dadebru.</p> <p>Rhaid i reolwr y practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod mygydau wyneb meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 wedi cael eu prynu.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliad 14 (1) (c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal</p>	<p>Archebwyd ar 17 Tachwedd 2017 a derbyniwyd ar 20 Tachwedd 2017.</p> <p>Darparwyd anfonebau wedi'u sganio.</p>	KB	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safon 2.9 Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU			
<p>Canfuwyd gennym nad oedd mwgwd ocsigen pediatrig yn y pecyn dadebru.</p> <p>Rhaid i reolwr y practis brynu mwgwd ocsigen pediatrig ar gyfer y pecyn dadebru.</p> <p>Rhaid i berchennog y practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod mwgwd ocsigen pediatrig wedi cael ei brynu.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliad 14 (1) (c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.9</p> <p>Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU</p>	<p>Archebwyd ar 14 Tachwedd 2017 a derbyniwyd ar 15 Tachwedd 2017.</p> <p>Darparwyd anfonebau wedi'u sganio.</p>	BJ	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):Karen Beggs

Swydd: Rheolwr y practis

Dyddiad: 21 Tachwedd 2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanrwst

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Diweddarau taflen a gwefan y practis er mwyn cynnwys manylion AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (4) (a) a (b) 6.3 Gwrandio a dysgu o adborth	Bellach wedi'i ddiweddarau. Manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys.	KB	Cwblhawyd
Parhau i archwilio opsiynau i leihau amserau aros.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (a)	Rydym yn monitro amserau aros ac yn trafod problemau mewn cyfarfodydd staff wythnosol i geisio gwella.	KB	Yn ystod y 6 mis nesaf

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	5.1 Mynediad amserol			
Gwella'r defnydd o negeseuon testun er mwyn atgoffa cleifion am apwyntiadau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (a) 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Rydym yn trafod sut i wella negeseuon atgoffa am apwyntiadau ar gyfer yr holl gleifion ond ni allwn warantu argaeledd apwyntiadau.	KB	Yn ystod y 6 mis nesaf
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r broses gwaredu meddyginiaeth gael ei ffurfioli fel y derbynnir cadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu y gwaredir arni.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (b) Atodiad 1 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Trefnu gydag Initial Medical i ddod â bin gwaredu meddyginiaeth pan fyddant yn dod i gasglu'n gwastraff y tro nesaf.	KB	Yn aros am ddyddiad casglu.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2.6 Rheoli meddyginiaethau			
Adolygu a diwygio'r polisi rheoli heintiau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (4) (5) a (6)	Wedi'i adolygu a'i ddiwygio	CS	Cwblhawyd
Darparu brws dolen hir a chwyddhadur mwy â golau ar gyfer glanhau a gwirio offer deintyddol.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Roedd brws dolen hir ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ac mae wastad wedi cael ei ddefnyddio. Archebwyd chwyddhadur mwy â golau ar ddiwrnod yr arolygiad ac mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers hynny.	BJ	Cwblhawyd
Ailseilio'r wyneb gwaith yn yr ystafell driniaeth er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r risg o groes-heintio.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r wyneb gwaith bellach wedi cael ei ailseilio â seliwr silicon.	TB	Cwblhawyd
Gwaredu ar yr hen beiriant pelydr-X yn yr ystafell ddadheintio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (3) (a) a (b) 2.8 Dyfeisiau,	Wedi cysylltu â chwmni hurio i drefnu trefniadau casglu a gwaredu.	KB	Yn aros am ddyddiad casglu

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	offer a systemau diagnostig meddygol			
Asesu a graddio'r holl ddelweddau pelydr-X i sicrhau ansawdd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (b)	Caiff yr holl ddelweddau pelydr-X eu hasesu a'u graddio wrth eu cymryd ac ymgymerir ag archwiliadau.	TB	Cwblhawyd
Cwblhau siartio deintyddol ar bob ymweliad a chofnodi'r canlyniadau.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000	Cwblheir siartio deintyddol ar bob ymweliad erbyn hyn.	TB	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Nid oes angen gwneud gwelliannau.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Tom Beggs

Swydd: Perchennog y practis / Deintydd

Dyddiad: 18 Ionawr 2018